# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Victor Hughes (Is-gadeirydd) |
| | Y Cynghorwyr R Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Derlwyn R Hughes, Dylan Rees,<br>Dafydd Rhys Thomas |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2016 fel rhai cywir ac eithrio'r ffaith bod enw'r Cynghorydd Bob Parry yn ymddangos ddwywaith yn y cofnodion.

Cadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Hydref, 2016.

**3 GWEDDARLLEDU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd mewn ymateb i gais y Pwyllgor am adroddiad ar yr opsiynau sydd ar gael mewn perthynas â gweddarlledu.

Ers Mehefin 2014, mae'r Cyngor wedi bod yn arbrofi gyda gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Mae trefniadau cyfredol y Cyngor ar gyfer gweddarlledu cyfarfodydd yn unol â'r hyn sy'n cael ei wneud mewn nifer o Gynghorau yng Nghymru ac mae rhai awdurdodau wedi ymestyn gweddarlledu i gynnwys Pwyllgorau Sgriwtini.

Mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at weddarlledu yn y Mesur Llywodraeth Leol nesaf ac unrhyw ofynion mandadol yn y dyfodol. Yn y Papur Gwyn, Ad-drefnu Llywodraeth Leol, Grym i Bobl Leol (Chwefror 2015), cyfeiriwyd at "y bwriad ar y pryd i'w gwneud yn orfodol bod holl gyfarfodydd y Cyngor llawn a'r Pwyllgor gwaith yn cael eu darlledu ar-lein, tra, ar yr un pryd, yn annog darlledu Pwyllgorau".

Soniodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar y cynnydd a wnaed o ran arbrofi gyda gweddarlledu a nododd bod angen eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyllido gweddarlledu yn y dyfodol ac argaeledd cyllid grant.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn argymell y dylid parhau gyda'r trefniadau cyfredol ar gyfer gweddarlledu yn 2017/18.

Trafododd yr Aelodau y posibilrwydd o ymestyn gweddarlledu i gynnwys y Pwyllgorau Sgriwtini ond argymhellodd y dylid parhau gyda'r cynllun peilot cyfredol am 2017/18.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Parhau gyda'r cynllun peilot i weddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn 2017/18.**
- **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod swm o £10,000 yn cael ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2017/18 i gwrdd â'r costau angenrheidiol.**
- **Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â sicrhau cyllid gan lywodraeth ganolog i gwrdd ag unrhyw gostau a gofynion statudol yn y dyfodol.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.15 pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**